

Anhwylder cysylltiedig â MYH9

Beth yw'r anhwylder?

- Mae anhwylder MYH9 yn anhwylder gwaedu ysgafn prin y platennau y gellir gwneud diagnosis ohono o adeg plentyndod hyd at gyfnod henoed.
- Cafodd ei ddisgrifio gyntaf gan ffisegwr o'r Almaen o'r enw Richard May yn 1909, ac yna gan ffisegwr o'r Swistir o'r enw Robert Hegglin yn 1945.
- Yn wreiddiol, disgrifiwyd MYH9 fel pedwar cyflwr clinigol gwahanol: syndrom Epstein, anomaledd May-Hegglin, syndrom Sebastian a syndrom Fechtner. Ers darganfod bod gan bob un o'r cyflyrau hyn yr un sail enetig, bellach, cyfeirir atynt fel un cyflwr: **Anhwylder cysylltiedig â MYH9**. Mae gan rai o'r syndromau unigol nodweddion eraill megis cataractau, problemau'r clyw, a phroblemau'r arennau.
- Mae MYH9 yn gyfrifol am gynhyrchu protein, myosin-9, sy'n elfen allweddol o gymhlethyn protein o'r enw myosin IIA. Bydd mwtaniadau yn y gennyn *MYH9* yn arwain at ostyngiad yn nifer y platennau a ffurfir.


Pwy sy'n dioddef?

- Mae MYH9 yn effeithio ar niferoedd cyfartal fwy neu lai o wrywod a benywod o bob oedran. Etifeddir un copi o ennyn mwtan oddi wrth y fam neu oddi wrth y tad (dominyddol awtosomaidd).

Beth yw'r symptomau?

- Gall cleifion sy'n dioddef gan HPSMYH9 brofi gwaedlifoedd o'r trwyn, cleisio'n rhwydd, gwaedu o'r deintgig, gwaedu mislifol trwm neu faith (gorffislif), gwaedu ar ôl rhoi genedigaeth, gwaedu annormal ar ôl llawdriniaeth neu driniaeth ddeintyddol, a gwaedu gastroberfeddol.
- Mae gan gleifion sydd ag *MYH9* ddiffygion ychwanegol sy'n amrywio o glaf i glaf:
 - colli'r clyw (unrhyw bryd o adeg eu genedigaeth i ddiwedd cyfnod oedolaeth);
 - clefyd yr arennau sy'n gallu arwain at fethiant terfynol yr arennau (yn gynnar yng nghyfnod oedolaeth ac wedi hynny);
 - cataractau (yn gynnar yng nghyfnod oedolaeth ac wedi hynny: llai cyffredin).

Diagnosis



©2016 The Platelet Charity

Helping people with bleeding disorders

www.plateletcharity.co.uk


Registered Charity Number: 1151168

Registered Address : Curo House, Greenbox, Westonhall Road, Stoke Prior, Bromsgrove, B60 4AL.

- Mae gan gleifion gyfrif platennau isel (thrombocytopenia) ac mae eu platennau yn chwyddedig. Weithiau, gwelir presenoldeb rhodenni bychan tebyg i gyrff Döhle a welir weithiau yng nghelloedd gwyn y gwaed pan archwilir gwaed o dan ficrosgop.
- Efallai bydd cleifion hefyd yn colli eu clyw, neu'n dioddef gan glefyd yr arennau neu gataractau.

Triniaeth

- Efallai bydd ar gleifion sydd â MYHP angen triniaeth naill ai cyn cael llawdriniaeth neu pan fydd gwaedu yn digwydd.
- Efallai caiff cwnsela genetig ei gynnig i gleifion.
- Dylai'r driniaeth gael ei harwain gan a'i thrafod â haematolegydd sydd â phrofiad o anhwylderau gwaedu.
- Fel arfer, bydd gan gleifion gerdyn anhwylderau gwaedu / cyflyrau gwaedlifau (a roddir iddynt gan Ganolfan Haemoffilia) i rybuddio eraill am eu cyflwr.



Helping people with bleeding disorders

www.plateletcharity.co.uk

Registered Charity Number: 1151168

Registered Address : Curo House, Greenbox, Westonhall Road, Stoke Prior, Bromsgrove, B60 4AL.